# Agenda – Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Y Siambr – Y Senedd**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 17 Hydref 2017

Amser y cyfarfod: 13.30

## 95(v4)

## 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

## 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

## 3 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Bil Rheoleiddio Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig (Cymru)

(60 munud)

## 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Y wybodaeth diweddaraf am sefyll arholiadau TGAU yn gynnar

(45 munud)

**Dogfen Ategol**

Cofrestru Cynnar TGAU

## 5 Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad rhag Ardrethi Annomestig)

(15 munud)

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**NDM6529** Mark Drakeford (Gorllewin Caerdydd):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru, yn unol â Rheol Sefydlog 29.6, yn cytuno y dylai Senedd y DU ystyried y darpariaethau yn y Bil Seilwaith Telathrebu (Rhyddhad rhag Ardrethi Annomestig), sy'n ymwneud â rhyddhad ardrethi annomestig, i'r graddau y maent yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru.

Gosodwyd Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol yn y Swyddfa Gyflwyno ar 25 Gorffennaf 2017 yn unol â Rheol Sefydlog 29.2(i).

Mae copi o'r Bil i'w weld ar wefan Senedd y DU:

Bill documents — Telecommunications Infrastructure (Relief from Non-Domestic Rates) Bill 2017-19 — UK Parliament (Saesneg yn unig)

**Dogfen ategol**

Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau - 12 Hydref 2017

## 6 Dadl: Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb

(60 munud)

**NDM6530** Jane Hutt (Bro Morgannwg):

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

Yn nodi'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â Fframwaith Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb Llywodraeth Cymru o ganlyniad i waith yn cynnwys amrywiaeth eang o bartneriaid ar draws Cymru.

'Fframwaith Mynd i'r Afael â Throseddau Casineb'

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi, er y bu cynnydd cyson yng nghyfanswm nifer y troseddau casineb a gaiff eu cofnodi, fod yr elusen Cymorth i Ddioddefwyr wedi dweud bod angen gwneud mwy i annog dioddefwyr i siarad am eu profiad.

**Gwelliant 2.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu cod ymarfer newydd Llywodraeth y DU ar gyfryngau cymdeithasol a fydd yn sicrhau dull gweithredu cydgysylltiedig mewn perthynas â dileu neu fynd i'r afael â chynnwys ar-lein sy'n bwlio, sy'n fygythiol neu'n fychanol.

Llywodraeth y DU - 'Internet Safety Strategy Green Paper' (Saesneg yn unig)

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw am gydnabod bod troseddau a gyflawnir yn erbyn pobl hŷn oherwydd eu hoedran yn droseddau casineb.

**Gwelliant 4.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ychwanegu troseddau casineb at y strategaeth awtistiaeth ddiwygiedig.

'Llywodraeth Cymru - Cynllun Gweithredu Strategol ar Anhwylderau'r Sbectrwm Awtistig'

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i fynd i'r afael â radicaleiddio dynion gwyn i mewn i grwpiau asgell dde, gan nodi gweithgarwch terfysgol diweddar a gyflawnwyd gan yr asgell dde.

**Gwelliant 6.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i ddarparu mwy o swyddogion cymorth i ddioddefwyr.

**Gwelliant 7.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i gyflwyno hyfforddiant i athrawon ar sut i ddelio â digwyddiadau sy'n gysylltiedig â chasineb mewn ysgolion, a chymryd camau i atal ysgolion rhag cadw hyn yn gudd.

**Gwelliant 8.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu fel pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn galw ar Lywodraeth Cymru i wella cydlyniant cymunedol yn dilyn digwyddiadau terfysgol gan mai dyma pryd y mae troseddau casineb yn erbyn Mwslimiaid yn tueddu i gynyddu.

## 7 Dadl: Yr Economi Gylchol

(60 munud)

**NDM6531** [Jane Hutt (Bro Morgannwg):]

Cynnig bod Cynulliad Cenedlaethol Cymru:

1. Yn nodi'r cynnydd sydd wedi'i gyflawni hyd yma yng Nghymru o safbwynt arwain o fewn y DU a bod y drydedd wlad orau yn y byd o ran ailgylchu trefol.

2. Yn cefnogi'r bwriad i ddatblygu economi fwy cylchol i Gymru, gan gynnwys ystyried yr achos o blaid:

a) Targed o ailgylchu 80% o wastraff trefol; ac

b) Targed o leihau gwastraff bwyd 50%.

**Cyflwynwyd y gwelliannau a ganlyn:**

**Gwelliant 1.** [Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)]

Ychwanegu pwynt newydd ar ôl pwynt 1 ac ailrifo yn unol â hynny:

Yn llongyfarch Cyngor Ceredigion ar barhau i fod y cyngor sy'n perfformio orau mewn perthynas ag ailgylchu.

**Gwelliant 2.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ym mhwynt 2,dileu popeth ar ôl 'yr achos o blaid' a rhoi yn ei le:

'targed o sicrhau dyfodol diwastraff erbyn 2030.'

**Gwelliant 3.** Paul Davies (Preseli Sir Benfro)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn nodi'r effaith sylweddol y gallai'r cynllun dychwelyd blaendal ei chael o ran helpu i gyrraedd targedau ailgylchu Cymru.

**Gwelliant 4.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn croesawu cytundeb y gyllideb rhwng Llywodraeth Cymru a Phlaid Cymru i gynyddu cyfraddau ailgylchu ymhellach drwy dreialu cynllun dychwelyd blaendal.

**Gwelliant 5.** Rhun ap Iorwerth (Ynys Môn)

Ychwanegu pwynt newydd ar ddiwedd y cynnig:

Yn cefnogi'r cynnig i ostwng lefelau gwastraff gweddilliol drwy gyflwyno treth ar blastigau na ellir eu hailddefnyddio a na ellir eu hailgylchu.

## 8 Cyfnod Pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Cynulliad am 13.30, Dydd Mercher, 18 Hydref 2017

## Cwestiynau Llafar y Cynulliad a gyflwynwyd ar 12 Hydref 2017 i’w hateb ar 17 Hydref 2017

**R - Yn dynodi bod yr Aelod wedi datgan buddiant.**
**W - Yn dynodi bod y cwestiwn wedi cael ei gyflwyno yn Gymraeg.**

**(Dangosir rhif gwreiddiol y Cwestiwn mewn cromfachau)**

Bydd y Llywydd yn galw Arweinwyr y Pleidiau i ofyn cwestiynau i’r Prif Weinidog heb rybudd ar ôl Cwestiwn 2.

## Gofyn i Brif Weinidog Cymru

1. Angela Burns (Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro): Pa gynlluniau sydd gan y Prif Weinidog i gefnogi'r diwydiant fferyllol yng Nghymru? (OAQ51217)

2. Vikki Howells (Cwm Cynon): Beth yw blaenoriaethau Llywodraeth Cymru ar gyfer dyrannu cyllid o dan raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn ystod tymor y Cynulliad hwn? (OAQ51210)

3. Adam Price (Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr): A yw Llywodraeth Cymru wedi nodi'r ddarpariaeth o drenau trydan rhwng Caerdydd ac Abertawe yn ei gwahoddiad i dendro ar gyfer masnachfraint Cymru a'r Gororau? (OAQ51220)

4. Mark Isherwood (Gogledd Cymru): Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi recriwtio swyddogion yr heddlu yng Nghymru? (OAQ51187)

5. Simon Thomas (Canolbarth a Gorllewin Cymru): Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd mewn perthynas â diogelwch plant yng Nghanolbarth a Gorllewin Cymru? (OAQ51221)**W**

6. Neil McEvoy (Canol De Cymru): A wnaiff y Prif Weinidog amlinellu pa gôd ymddygiad sy'n gymwys i swydd y Prif Weinidog? (OAQ51218)

7. Hannah Blythyn (Delyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer digwyddiadau Pride yng Nghymru? (OAQ51219)

8. Rhianon Passmore (Islwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gynnydd y tasglu gweinidogol ar gyfer cymoedd y de? (OAQ51222)

9. Mike Hedges (Dwyrain Abertawe): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddarparu digon o dai o ansawdd yng Nghymru? (OAQ51177)

10. Sian Gwenllian (Arfon): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am ddyfodol gwasanaethau fasgwlaidd yn Ysbyty Gwynedd? (OAQ51216)**W**

11. Huw Irranca-Davies (Ogwr): A wnaiff y Prif Weinidog nodi ei uchelgeisiau ar gyfer Banc Datblygu Cymru? (OAQ51181)

12. Jeremy Miles (Castell-nedd): Sut y bydd Llywodraeth Cymru yn gweithredu i gefnogi'r sector cydweithredol yn y pumed Cynulliad? (OAQ51213)

13. Russell George (Sir Drefaldwyn): A wnaiff y Prif Weinidog ddatganiad am gefnogaeth Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ag anableddau yng nghanolbarth Cymru? (OAQ51189)

14. Leanne Wood (Rhondda): A wnaiff y Prif Weinidog roi'r wybodaeth ddiweddaraf am strategaeth camddefnyddio sylweddau Llywodraeth Cymru? (OAQ51202)

**Datganiad a Chyhoeddiad Busnes**

**Mae agendâu'r Cyfarfod Llawn yn cael eu cyhoeddi wythnos cyn pob cyfarfod, ac maent i'w gweld ar dudalen y Cyfarfod Llawn**

---

**Dydd Mawrth 24 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cyhoeddus: Bil Iechyd y Cyhoedd (Isafbris Alcohol) (Cymru) (60 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg: Recriwtio Athrawon (30 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Y Rhaglen Tai Arloesol (45 munud)
- Rheoliadau Dyddodi Gwastraff Heb Awdurdod (Cosbau Penodedig) (Cymru) 2017 (15 munud)
- Gorchymyn Cyngor y Gweithlu Addysg (Achredu Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon) (Swyddogaethau Ychwanegol) (Cymru) (Diwygio) 2017 (15 munud)
- Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Diwygiadau Canlyniadol) 2017 (15 munud)

**Dydd Mercher 25 Hydref 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyllid a Llywodraeth Leol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau i Gomisiwn y Cynulliad (30 munud)
- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Gynnig Deddfwriaethol gan Aelod (30 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau: Cymunedau yn Gyntaf – yr hyn a ddysgwyd (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl fer – Russell George (Sir Drefaldwyn) – (30 munud)

**Toriad: dydd Llun 30 Hydref 2017 – dydd Sul 5 Tachwedd 2017**

**Dydd Mawrth 7 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Datganiad gan Weinidog y Gymraeg a Dysgu Gydol Oes: Ein Cymoedd, Ein Dyfodol: Cynllun Cyflawni (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant: Cofio ein Lluoedd Arfog – Anrhydeddu Aberthau'r Gorffennol a Chefnogi Cymuned y Lluoedd Arfog (45 munud)
- Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Diwydiant Bwyd a Diod (30 munud)
- Cynnig i drafod y ddwy eitem ganlynol gyda'i gilydd ond gyda phleidleisiau ar wahân (15 munud):

- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Cofrestru) (Cymru) 2017
- Rheoliadau Gwasanaethau Rheoleiddiedig (Datganiadau Blynyddol) (Cymru) 2017

- Gorchymyn Ystadegau Swyddogol (Cymru) 2017 (15 munud)

- Dadl: Adroddiad Blynyddol Comisiynydd Plant Cymru 2016-17 (60 munud)

**Dydd Mercher 8 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg (45 munud)
- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd, Llesiant a Chwaraeon (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Datganiad gan Gadeirydd y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus: Ymchwiliad i Blant sydd wedi bod mewn Gofal (30 munud)
- Dadl gan Aelodau Unigol o dan Reol Sefydlog 11.21(iv) (60 munud)
- Dadl ar adroddiad y Pwyllgor Newid Hinsawdd, Amgylchedd a Materion Gwledig: Y Llanw'n Troi? Adroddiad yr ymchwiliad i ddull Llywodraeth Cymru o Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (60 munud)
- Dadl Fer - Janet Finch-Saunders (Aberconwy) - (30 munud)

**Dydd Mawrth 14 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i'r Prif Weinidog (45 munud)
- Datganiad a Chyhoeddiad Busnes (30 munud)
- Dadl: Mynd i'r Afael â Chamddefnyddio Sylweddau (60 munud)
- Dadl: Adroddiad Blynyddol 2016-17 Comisiynydd y Gymraeg (60 munud)

- Dadl: Cyfnod 3 Bil Diddymu'r Hawl i Brynu a Hawliau Cysylltiedig (Cymru) (120 munud)

**Dydd Mercher 15 Tachwedd 2017**

**Busnes y Llywodraeth**

- Cwestiynau i Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith (45 munud)
- Cwestiynau i'r Cwnsler Cyffredinol (45 munud)

**Busnes y Cynulliad**

- Cwestiynau Amserol (20 munud)
- Datganiadau 90 Eiliad (5 munud)
- Dadl ar Adroddiad Pwyllgor yr Economi, Seilwaith a Sgiliau: Seilwaith Digidol Cymru (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i'r Ceidwadwyr Cymreig (60 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Annibyniaeth y Deyrnas Unedig (60 munud)
- Dadl Fer - Neil Hamilton (Canolbarth a Gorllewin Cymru) - (30 munud)